Enw



DARLLENWCH
Exodus 5: 1-9, 22-23
6: 1-9



ADNOD ALLWEDDOL
Hebreaid 10: 31

# Gwers 4 Moses – yn Dod â Neges Duw

Oes rhywun wedi gofyn i chi rywbryd i wneud rhywbeth doeddech chi ddim eisiau ei wneud? Fe wnaethoch chi esgusodion, mae'n siŵr, a hyd yn oed awgrymu rhywun arall i wneud y gwaith, efallai. Dyna'n union wnaeth Moses pan ofynnodd Duw iddo fynd i siarad â Pharo! Yn y diwedd, cytunodd Moses y byddai'n mynd, dim ond bod ei frawd Aaron yn siarad drosto. Doedd ceisio perswadio Pharo i ryddhau'r Israeliaid ddim yn mynd i fod yn dasg hawdd.

**C Ym mha adnod ym mhennod 5 mae Pharo yn gwneud yr esgusodion hyn?** 2




Yn lle gwneud yr hyn a ofynnodd Moses ac Aaron, gwnaeth Pharo fywyd y caethweision Iddewig yn fwy anodd fyth.

**C Llanwch y bylchau er mwyn cwblhau gorchymyn Pharo.** 2

Gadewch iddynt fynd a chasglu ......................iddynt eu hunain. (5:7)

Gofalwch eu bod yn cynhyrchu'r un ............. o briddfeini â chynt. (5:8)

Cafodd yr Israeliaid eu cosbi oherwydd doedden nhw ddim yn gallu gwneud hyn. Dyma nhw'n dechrau rhoi'r bai ar Moses ac Aaron ar unwaith.

**C Sut aeth Moses ati i ddatrys y broblem? Tanlinellwch yr ateb cywir.** 1

Dywedodd wrth yr Israeliaid am fynd i ffwrdd. Pwdodd. Gweddïodd ar yr Arglwydd.

Roedd angen sicrwydd ar Moses fod Duw yn dal wrth y llyw. Atebodd Duw drwy ei atgoffa o'i nerth a thrwy'r nerth hwnnw byddai'n gorfodi Pharo i ryddhau'r bobl. Doedd Duw DDIM wedi anghofio Ei addewidion.

**C Tynnwch linell fydd yn cysylltu dechrau a diwedd pob addewid a wnaeth Duw ym mhennod 6, adnod 6 i 8.** 3

| | |
|---|---|
| Fe'ch rhyddhaf | a byddaf finnau yn Dduw i chwi. |
| Fe'ch cymeraf yn bobl i mi | yr addewais ei rhoi i Abraham, Isaac a Jacob. |
| Fe'ch dygaf i'r wlad | o orthrwm yr Eifftiaid. |

Roedd Duw hefyd eisiau i Moses a'r Israeliaid sylweddoli PWY yw EF. Mae Ef yn atgoffa Moses bedair gwaith drwy ddweud "MYFI YW'R ARGLWYDD".

**C Chwiliwch am y pedair adnod ym mhennod 6 lle mae'r geiriau hyn i'w gweld.**

| Adnod: | Adnod: | Adnod: | Adnod: |
|---|---|---|---|

4

Dylai gwybod mai Ef yw'r Arglwydd fod wedi eu helpu nhw i gredu yn nerth ac addewidion Duw.

**C Wrandawodd yr Israeliaid ar beth ddywedodd Moses wrthyn nhw am addewidion Duw? Rhowch linell drwy'r ateb anghywir. (adnod 9)**

1

**DO / NADDO**



Mae Duw eisiau i ni gredu'r addewidion roddodd Ef i ni yn Ei Air, y Beibl. Roedd Duw, nid yn unig am i'w bobl Ei hun ddeall Ei nerth a'i fawredd, ond roedd Ef am i Pharo fod yn dyst i hynny hefyd. Bu'n rhaid i Dduw anfon deg cosb, neu bla, cyn y byddai Pharo'n rhyddhau pobl Dduw. Ceir disgrifiad o'r plâu hyn ym mhenodau 7 i 11.

**C Chwiliwch am y cyfeiriadau hyn ac ysgrifennwch enw'r pla ar y llinell, yna gosodwch bob pla yn y lle cywir ar y grid.**


**Lawr**
Exodus 10: 21 ____________________

**Ar draws**
Exodus 7: 20 ____________________

Exodus 8: 6 ____________________

Exodus 8: 24 ____________________

Exodus 9: 11 ____________________



5

Gwrthododd Pharo gynllun Duw ar gyfer Israel ac felly daeth o dan farn neu gosb Duw.

**C Mae'r Adnod Allweddol yn rhybudd i bob un ohonom. Ysgrifennwch yr adnod.**

2

**cyfanswm**

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

SAFON 3 B9

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120